## Galwad am syniadau drama i bobl ifanc

Mae S4C yn awyddus i dderbyn syniadau drama ar gyfer yr oedran 13 – 15 oed yn y gobaith o gomisiynnu un gyfres ddrama 8 x 30 y flwyddyn i'w darlledu o 25/26 ymlaen.

Bydd potensial i ddatblygu 3 syniad bob blwyddyn gyda un o'r syniadau hynny'n cael ei ddewis ar gyfer cyllid cynhyrchu.

Mae hwn yn oedran anodd i'w ddenu at S4C. Dyma gynulleidfa sy'n gwylio dramau fel Wednesday, Stranger Things a Breaking Bad. Rydyn ni'n ymwybodol na fydd hi'n bosib i efelychu y cyfresi hyn ond nôd S4C yw cael dramau sy'n feiddgar, yn anghonfensiynnol yn gwthio ffiniau, yn anelu yn hŷn o ran ymdeimlad ond dal yn addas i'r oedran.

Dy ni hefyd am weld syniadau sy'n berthnasol i bobl ifanc Cymru ac yn caniatau iddyn nhw 'weld' eu hunain ar y sgrin o ran teip, iaith, amrywiaeth a diwylliant.

Rydyn ni eisau hyrwyddo lleisiau sy'n cael eu tangynrychioli wrth bortreadu'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys rhoi llais i sgriptrwyr ifanc newydd sy'n deall yr iaith a'r tôn sydd ei angen ar gyfer y gynulleidfa heriol hon yn ogystal a rhoi cyfle i gyfarwyddwyr newydd sy'n gyfarwydd a'r hyn sy'n apelio yn weledol at yr oed.

Dydyn ni ddim yn chwilio am syniadau o fewn 'genre' drama penodol felly mae posib cynnig ystod eang o syniadau gan gynnwys comedi ond bod y pwnc a'r driniaeth yn apelgar i'r oed darged ac uwch.

**Canllawiau ar gyfer gwneud cais :-**

•Bydd disgwyl i chi anfon braslun manwl o'ch syniad gan gynnwys sut fyddai'n gweithio dros gyfres o 8 x 30. Dylai'r braslun gynnwys disgrifiad o'r cymeriadau a'u rhan yn y stori a manylion yr uchelgais o ran natur y scriptio a'r cyfarwyddo. Dylech hefyd fanylu ar gyfer pwy yn union o fewn yr oed darged mae eich syniad wedi anelu atyn nhw.

• Dylai'r ceisiadau gynnwys enw prif awdur/golygydd script ac enw cynhyrchydd.

• Dylai ymgeiswyr neu rai sydd ynghlwm a'r cais fod â phrofiad perthnasol o weithio yn y diwydiannau creadigol. Nid ydym yn disgwyl i holl aelodau craidd y tîm fod â phrofiad o ddrama, ond yn y pen draw byddwn yn chwilio am gydbwysedd o brofiad ar draws aelodau'r tîm.

• Nid oes angen profiad blaenorol o gynhyrchu drama i'r oed darged ond byddai dealltwriaeth o'r oed neu brofiad o weithio gyda'r oed yn fanteisiol.

• Rhaid i bob cais gael ei gyflwyno drwy gwmni cynhyrchu achredig yng Nghymru.

• Nid oes angen i bob aelod o'r tîm ysgrifennu, cyfarwyddo a chynhyrchu fod yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Gallwn gefnogi unigolion lle bo'r angen.

• Fe fydd cyllid oriau brig i'r dramau hyn felly dylid ystyried hynny yn y weledigaeth.

**Sut I wneud cais:-**

• Cysylltwch yn y man cyntaf i fynegi diddordeb gyda Sioned.geraint@s4c.cymru a Gwenllian.Gravelle@s4c.cymru. Gallwn ymhelaethu ar uchelgais y tôn yr ydym yn awyddus i'w gael ac ar gyllid.

Anfonwch eich ceisiadau gorffenedig erbyn hanner dydd **Ionawr 31ain 2024 at** syniad@s4c.cymru yn unig.

Mae'n fwriad asesu y ceisiadau ac i hysbysu cwmniau y ystod yr wythnos cychwyn 1 Ebrill 2024.

Noder yn garedig ein bod yn cadw'r hawl i beidio comisiynu.